SHS 05
Ymgynghoriad ar y cyflenwad o dai cymdeithasol
Consultation on social housing supply
Ymateb gan: Iechyd Cyhoeddus Cymru
Response from: Public Health Wales

# Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r cyflenwad tai cymdeithasol.

Mae'n bleser gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu'r cyflwyniad ysgrifenedig hwn i ymgynghoriad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'r cyflenwad tai cymdeithasol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'n bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn un o'r 11 sefydliad sy'n rhan o GIG Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu'r ymchwiliad hwn i lywio gwaith cydweithredol rhanddeiliaid o bob rhan o'r sectorau iechyd a thai a thu hwnt, i greu diben a dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sydd angen ei wneud i sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi cymdeithasol yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle i gymryd cam pwysig tuag at wella iechyd, llesiant a thegwch poblogaeth Cymru yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol, drwy gryfhau argaeledd cartrefi iach fel un o'r blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer bywyd iach.

## Cyflwyniad

Mae tai o ansawdd da yn un o'r blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer bywyd iach. Pan fo tai cymdeithasol yn bodloni'r amodau ar gyfer cartref iach (gan ystyried ansawdd, fforddiadwyedd, ymarferoldeb, diogelwch, ac effeithiau amgylcheddol, yn ogystal â'r gymuned y maent ynddi a'r seilwaith lleol sydd ar gael) gall gyfrannu'n ystyrlon at iechyd a llesiant. Mae'r effaith y gall tai iach ei chael ar lesiant a thegwch yn cysylltu â blociau adeiladu eraill, megis swyddi da, digon o arian i dalu biliau, cysylltiadau â phobl yn ein cymunedau, addysg a sgiliau, ac amgylcheddau diogel a glân.

Mewn gormod o rannau o Gymru, nid yw'r blociau adeiladu hyn yn ddigon cryf neu maent ar goll yn gyfan gwbl. Mae hyn yn arwain at iechyd gwaeth a bywydau'n cael eu torri'n fyr, gan greu neu waethygu anghydraddoldebau iechyd (gwahaniaethau mewn iechyd rhwng grwpiau o bobl a chymunedau). Gallai cyflenwad da o dai cymdeithasol iach helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

## Effaith fforddiadwyedd tai ar iechyd a llesiant

Mae diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru yn broblem ers amser maith, sy'n cael ei waethygu gan yr argyfwng costau byw. Mae'r bwlch rhwng y rhai sy'n gallu a ddim yn gallu fforddio eu tai wedi cynyddu dros y degawd diwethaf. Mae hyn wedi sbarduno gwahaniaethau cynyddol rhwng iechyd a llesiant y cyfoethog a'r tlawd yng Nghymru.

Mae cael cartrefi sy'n fforddiadwy yn golygu bod gan y rhai ar incwm is fwy o arian yn weddill ar ôl talu rhent a biliau, arian y gellir ei wario ar hanfodion fel dillad ac ar bethau a all helpu i'w cadw'n iach fel bwyd iach a gweithgareddau hamdden. Mewn cymhariaeth, mae prisiau rhentu preifat wedi cynyddu'n sylweddol, tra bod cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol wedi'u codi'n ddiweddar yn 2024 ar ôl cael eu rhewi rhwng 2020-2023. Mae methu â fforddio rhent, taliadau morgais neu hanfodion eraill yn achosi straen ariannol, sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl.

Yn aml mae cartrefi cost is o ansawdd gwaeth neu mewn lleoliadau llai dymunol. Gall hyn waethygu ymhellach effeithiau negyddol brwydro i fforddio costau tai ar iechyd a llesiant gyda'r materion ehangach sy'n gysylltiedig â byw mewn tai gwael. Mewn cyferbyniad, mae tai sydd â digon o le - tai preifat a chymunedol - i bawb sy'n byw yno, sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn sych, ac sydd wedi'u lleoli mewn cymdogaethau croesawgar gyda chysylltiadau â seilwaith, amwynderau cymdeithasol a mannau gwyrdd, yn cefnogi mannau ffisegol da ac iechyd meddwl a llesiant yn ogystal â llesiant cymdeithasol. Mae'n atal salwch anadlol sy'n gysylltiedig â chartrefi oer a llaith yn ogystal â'r problemau iechyd meddwl a throsglwyddo heintiau sy'n gysylltiedig â chartrefi gorlawn. Mae cyflenwad digonol o gartrefi hygyrch ar gyfer y rhai â chyflyrau iechyd neu namau hefyd yn ystyriaeth allweddol fel rhan o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

## Effeithlonrwydd ynni a fforddiadwyedd tai

Mae un elfen o fforddiadwyedd tai yn cael ei phennu gan filiau aelwydydd. Mae effaith biliau ynni ar gyllid aelwydydd a fforddiadwyedd costau tai wedi bod yn arbennig o ddifrifol yn ddiweddar oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae costau biliau ynni uchel yn fwy tebygol os yw cartrefi wedi'u hadeiladu a'u hinswleiddio wael – maent yn aneffeithlon o ran ynni. Mae methu â fforddio biliau ynni yn golygu efallai na fydd pobl yn gwresogi eu cartrefi'n ddigonol, sy'n golygu eu bod nhw a'u teuluoedd yn byw mewn cartrefi oer a llaith.

Byddai darparu cyflenwad tai cymdeithasol sy'n ynni effeithlon yn dod â chyd-fuddiannau i iechyd a llesiant pobl ac i'r blaned. Mae'n lleihau biliau ynni pobl, yn gostwng straen ariannol, ac yn ei gwneud yn fwy fforddiadwy i bobl gadw eu cartrefi'n gynnes, a allai, o bosib, leihau canlyniadau iechyd gwael sy'n gysylltiedig â chartrefi oer a llaith. Mae ymchwil hefyd wedi dangos effaith gadarnhaol ar lesiant seicolegol, cymdeithasol ac ariannol o welliannau effeithlonrwydd ynni.

Er enghraifft, gall ôl-osod cartrefi i wella effeithlonrwydd ynni neu uwchraddio boeleri a systemau gwresogi gynnig adenillion o fuddsoddi (e.e. oherwydd biliau ynni is) ond yn gyffredinol mae'n gofyn am gostau ymlaen llaw uchel. Gall methu â fforddio gwaith uwchraddio o'r fath, neu fod mewn eiddo ar rent ac felly heb reolaeth fel tenant dros y dewis i ôl-osod, adael pobl yn sownd mewn cartrefi sydd wedi'u gwresogi'n wael neu'n wynebu mwy o straen ariannol, sydd ill dau yn ddrwg

i'w hiechyd. Mae hefyd yn sbarduno anghydraddoldebau rhwng y rhai a all ac na all fforddio gwneud y gwelliannau effeithlonrwydd hyn.

Mae tai ynni effeithlon hefyd yn cefnogi amcanion polisi'r llywodraeth ar newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio. Fel y nodwyd yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: 'Mae'r adeiladau rydyn ni'n byw ynddynt fel arfer yn bodoli am ganrif neu fwy, ac felly bydd y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud heddiw yn cael effaith ddwys ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol - yn uniongyrchol ar eu hamodau byw ac yn ehangach allyriadau carbon Cymru, ein tirwedd, economi a chymunedau'.

## Manteision tai fforddiadwy ac iach

Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dangos bod tai o ansawdd gwael yng Nghymru yn costio dros £95 miliwn y flwyddyn i'r GIG mewn costau triniaeth blwyddyn gyntaf yn unig. Mae'r gost i gymdeithas Cymru dros £1 biliwn (e.e. costau economaidd, llesiant a gofal gydol oes).

Mae manteision darparu tai iach yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r system dai, gydag enillion ac arbedion costau yn berthnasol ar draws sawl maes polisi a chyllideb. Er enghraifft:

- Gall gwario £1 ar wella cynhesrwydd mewn aelwydydd sy'n agored i niwed arwain at £4 o fanteision iechyd.
- Mae gwella awyru yn gwella asthma plant ac yn debygol o leihau absenoldebau ysgol.
- Gall pob £1 sy'n cael ei gwario ar addasiadau cartref gynhyrchu £7.50 o arbedion costau iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, nododd ymchwil a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r hyn sy'n ysgogi anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru mai 'cyfalaf cymdeithasol a dynol' a 'sicrwydd incwm ac amddiffyn cymdeithasol' yw dau brif yrrwr y bwlch a eglurwyd mewn iechyd a llesiant corfforol hunangofnodedig.

O ran cyfalaf cymdeithasol a dynol, mae tai diogel a fforddiadwy yn helpu pobl i osod gwreiddiau mewn cymuned, i gymryd rhan yn gymdeithasol, a datblygu ymdeimlad o berthyn, sydd o fudd i iechyd a llesiant. Mae hyn yn golygu gallu gwneud a meithrin cyfeillgarwch a buddsoddi mewn perthnasoedd gyda chymdogion, sy'n dda i iechyd unigolion ac yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Gall teuluoedd ddarparu sylfaen ddiogel i fagu eu plant ohoni a'u galluogi i gael addysg gyson, hyfforddiant, prentisiaethau a pherthnasoedd â chyfoedion. Dyma'r sylfaen ar gyfer sefydlu bywyd gwaith a theuluol iach wrth iddynt ddod yn oedolion. Mae'r 'cyfalaf cymdeithasol a dynol' hwn yn sylfaenol i iechyd a llesiant, a gall ei absenoldeb yrru anghydraddoldeb iechyd.

O ran sicrwydd incwm, mae cael cartref diogel yn ffactor pwysig o ran cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a sefydlu incwm sicr, gan helpu i gadw pobl a theuluoedd allan

o dlodi. Gallai rhenti uchel, er enghraifft, symud pobl i eiddo mwy fforddiadwy mewn ardaloedd â mynediad gwaeth at gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus neu gyfleoedd cyflogaeth. Mae incwm digonol a sicr, boed hynny drwy waith neu ar y cyd â chymorth lles, yn galluogi aelwydydd i reoli eu cyllidebau a theimlo bod ganddynt reolaeth. Mae hyn yn cefnogi iechyd meddwl a chorfforol da, ac yn osgoi'r effaith y gall straen ac anawsterau ariannol ei chael ar afiechyd cronig a marwolaethau ledled Cymru.

Gall cartref diogel ac iach hefyd sicrhau bod plant yn gallu cymryd rhan mewn addysg, gan eu helpu i gyflawni eu potensial a sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gael gwaith teg yn y dyfodol. Mae hyn yn dod â manteision iechyd a llesiant uniongyrchol a gydol oes i blant a'r oedolion y byddant yn y dyfodol.

Er mwyn i gartref ddiogelu a hybu iechyd, mae angen iddo gael ei leoli mewn cymunedau croesawgar sydd â mynediad at adnoddau a gwasanaethau (seilwaith) a all fod o fudd i iechyd. Un ffordd y gall lleoliad y cyflenwad tai wneud hyn yw trwy ei effaith ar y nifer sy'n ymgymryd ag ymddygiadau iechyd.

Er enghraifft, gall mynediad i fannau gwyrdd/glas annog pobl i gerdded, gwneud ymarfer corff, cael awyr iach, a chwrdd ag eraill. Gall bod o fewn cyrraedd hawdd, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu ar droed i, er enghraifft, wasanaethau sgrinio iechyd, canolfannau chwaraeon, neu sefydliadau sy'n darparu presgripsiynau cymdeithasol hefyd gyfrannu at iechyd a llesiant ataliol unigolion.

I blant a phobl ifanc bydd hyn yn golygu cyfleoedd i gerdded i'r ysgol ac i chwarae yn yr awyr agored. Gall mynediad hawdd at adnoddau cymunedol pan fo angen gefnogi diogelwch corfforol a seicolegol a datblygiad iach plant a phobl ifanc. Hefyd, mae'n golygu y gall pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau iechyd neu namau gael mynediad gwell at wasanaethau a chysylltiadau cymdeithasol i atal unigrwydd ac arwahanrwydd a chefnogi eu hiechyd a'u llesiant.

**Mae'r ystyriaethau hyn yn dangos manteision sicrhau 1) bod tai cymdeithasol newydd yn cael eu hadeiladu/eu hadnewyddu i safon ac mewn lleoliad sy'n diogelu a hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, a 2) bod cyflenwad digonol i sicrhau bod y tai hyn yn fforddiadwy, a'u bod yn cynnig manteision penodol i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol.**

## Cynnwys cymunedau lleol mewn datblygiadau tai cymdeithasol

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIAs), sydd wedi'u mandadu drwy Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, yn ffordd o nodi sut y gall polisïau, cynlluniau a chynigion effeithio ar iechyd a llesiant (yn gadarnhaol ac yn negyddol), a sut y gall yr effeithiau hynny amrywio rhwng grwpiau poblogaeth gwahanol a gwahanol ardaloedd daearyddol (gyda'r potensial i greu neu waethygu anghydraddoldebau). Gellir

defnyddio HIA yn y cyfnod dylunio a datblygu yn y dyfodol, neu i helpu i ddeall effeithiau yn ôl-weithredol. Maent yn gyfranogol, ac yn darparu cyfrwng ar gyfer gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid lleol a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Gellir defnyddio'r canfyddiadau i adolygu cynnig polisi neu i gymryd camau gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol.

Mae HIAs yn cynnig gwerth sylweddol fel arf i ddeall goblygiadau posibl pob penderfyniad polisi tai ar iechyd a llesiant, yn enwedig o ystyried cymhlethdod y system dai a'r potensial am ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gartref i Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), sy'n darparu hyfforddiant a chymorth ar gwblhau HIAs, ac yn cynnal HIAs ar bynciau sy'n berthnasol i Gymru. Ar 29 Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad ar reoliadau arfaethedig ar y defnydd o HIAs gan gyrff cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau strategol, fel y nodir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Gellir defnyddio offer a dulliau systemau hefyd i edrych ar ganlyniadau anfwriadol, perthnasoedd achos ac effaith ac effeithiau oedi, a allai gynnig mewnwelediad arbennig o ddefnyddiol mewn maes polisi mor gymhleth â thai. Gallai offer a dulliau systemau helpu cyfranogwyr systemau i weld a deall eu rhan o fewn y system dai ehangach a gallent lywio datblygiad gweledigaeth hirdymor o dai digonol.

## Dyfodol tai iach

O ystyried yr anghydraddoldebau parhaus mewn canlyniadau iechyd a llesiant sy'n effeithio ar ansawdd bywyd a hirhoedledd, mae darparu tai cymdeithasol iach yn fecanwaith hanfodol ar gyfer cyflawni effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant, cefnogi lleihau anghydraddoldebau, ac atal y "bwlch iechyd" hwn y mae modd ei osgoi rhag ehangu.

Mae angen i gamau gweithredu i wella fforddiadwyedd cartrefi yng Nghymru ystyried tueddiadau yn y dyfodol a sut y gall eu heffaith ar fforddiadwyedd tai amrywio rhwng grwpiau. Mae tueddiadau perthnasol yn y dyfodol yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, mwy o weithio gartref, ymestyn disgwyliad oes a throsiant landlordiaid. Mae angen i fuddsoddiad mewn tai ystyried y gwahaniaethau o ran pwy sy'n canfod cartrefi yn fwy neu'n llai fforddiadwy nawr ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad yw buddsoddiadau'n arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol.

## Crynodeb

Mae tai o ansawdd da yn un o'r blociau adeiladu sydd eu hangen ar gyfer bywyd iach. Mae diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru yn broblem ers amser maith, ac yn cael ei waethygu gan yr argyfwng costau byw. Pan mae tai cymdeithasol yn bodloni'r amodau ar gyfer cartref iach, gall gyfrannu'n ystyrlon at iechyd a llesiant.

Byddai hyn yn golygu bod 1) tai cymdeithasol newydd yn cael eu hadeiladu neu eu hadnewyddu i safon ac mewn lleoliad sy'n gwarchod a hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, a 2) bod cyflenwad digonol i sicrhau bod y tai hyn yn fforddiadwy, gyda manteision penodol i iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol.

Dylai hefyd ystyried:

- Sut mae tai fforddiadwy yn aml o ansawdd gwael ac mewn lleoliadau annymunol, sy'n gwaethygu ymhellach yr effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant;
- Y cysylltiad rhwng fforddiadwyedd tai ac effeithlonrwydd ynni cartrefi;
- Bod cartrefi iach yn darparu manteision lluosog, ehangach – er enghraifft cefnogi pobl i ymgysylltu â'u cymunedau lleol, cael mynediad at waith ac incwm sicr a chymryd rhan mewn addysg;
- Gwerth defnyddio HIAs i lywio penderfyniadau a wneir ynghylch tai cymdeithasol newydd neu rhai sydd wedi'u hôl-osod; a
- Yr angen i ystyried effaith tueddiadau'r dyfodol ar fforddiadwyedd tai, a'r cyflenwad tai, a sut y gallai hynny fod yn wahanol rhwng grwpiau poblogaeth dros amser.

O ystyried yr uchod, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r farn y byddai ystyried camau gweithredu i gynyddu'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol yn elwa ar gydnabyddiaeth fwy amlwg o'r cysylltiadau lluosog rhwng iechyd a thai, a bod tai yn floc adeiladu hanfodol ar gyfer bywyd iach, a gallai ei absenoldeb weithredu i yrru anghydraddoldeb iechyd.

Byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu ymhellach at yr ymchwiliad hwn i sut y gallai tai cymdeithasol hybu iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol.